**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ms. Christine Chapman AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Ceneldaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Hydref 2014

Annwyl Christine,

**Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, "Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru"**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi ynglŷn â fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae pleser gennyf anfon copi o fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor, fel y cytunwyd, i gyd-fynd â'r lansiad yr *Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014.*

Rwyf wedi trefnu i chi ac Aelodau'r Pwyllgor gael copïau o'r adroddiad Adolygiad Arbenigol yn syth o'r argraffwyr. Os oes angen am gopi electronig yn y cyfamser, mae croeso i chi cysylltu â fy swyddfa.

Cofion,

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Ymateb Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, "Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru".

14 Hydref 2014.

---

> *Bydd llyfrgelloedd yn ysbrydoli pobl Cymru i fwynhau darllen, gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chyfoethogi ansawdd eu bywydau ac i roi'r grym iddynt i wireddu eu llawn botensial. (Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli)*

Ers dros 150 o flynyddoedd mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn chwarae rôl ganolog fel canolfannau diwylliannol ac addysgol mewn cymunedau ledled Cymru. Maent yn rhoi mynediad yn ddi-dâl at adnoddau, gwybodaeth a gweithgareddau. Maent yn hyrwyddo llythrennedd, dysgu gydol oes a lles pobl Cymru. Mae gwybodaeth yn rymus ac mae llyfrgelloedd yn grymuso pobl ac yn gwneud gwir wahaniaeth i'w bywydau.

Yn sgil y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus y mae llawer o awdurdodau lleol yn ystyried eu gwneud oherwydd pwysau ariannol, cyflwynodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd Ddatganiad Ysgrifenedig ar 3 Rhagfyr 2013 yn cyhoeddi Adolygiad Arbenigol (yr Adolygiad) o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r Adolygiad yn cynnwys y modd y darperir llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Yn ôl y datganiad:

> Bydd angen i'r adolygiad ystyried unrhyw argymhellion a gyhoeddir gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a'r adroddiad arfaethedig ar lyfrgelloedd cyhoeddus gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (y Pwyllgor), *Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*, ym mis Gorffennaf a hoffwn ddiolch i bob aelod o'r Pwyllgor ac i bawb a gyfrannodd at eu hymchwiliad i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Panel Arbenigol a wnaeth yr Adolygiad wedi cyfarfod i drafod adroddiad y Pwyllgor a chynhwysir eu hargymhellion a'u barn yn yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru, 2014 sydd i'w lansio ar 22 Hydref. Byddaf yn sicrhau y dosberthir copïau o'r adroddiad hwn i bob aelod o'r Pwyllgor.

Mae adroddiad y Pwyllgor ac adroddiad y Panel Arbenigol fel ei gilydd yn tynnu sylw at y swyddogaeth "bwysig iawn" y mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei chwarae yn ein cymunedau a'u bod yn cyfrannu i ystod o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys y *Rhaglen Lywodraethu*. Mae'r ddau adroddiad yn nodi bod ein llyfrgelloedd cyhoeddus yn cyfrannu i flaenoriaethau allweddol megis:

- Gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da
- Llythrennedd
- Dysgu gydol oes
- Iechyd a lles

- Cefnogi pobl i ennill sgiliau digidol a gallu defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein
- Pawb yn cael mynediad cyfartal, mewn lleoliad niwtral
- Helpu pobl i gael gwaith
- Mynd i'r afael â thlodi
- Hyrwyddo cynaliadwyedd a
- Hyrwyddo ein diwylliant a'n treftadaeth.

Mae'r adroddiadau yn amlinellu tystiolaeth am yr angen parhaus am wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu ein bod mewn cyfnod o newidiadau sylweddol a bod yn rhaid i lyfrgelloedd cyhoeddus ymateb yn y dyfodol i anghenion newidiol y cyhoedd yn ogystal ag i newidiadau gwleidyddol ac economaidd. Gan hynny, mae'r newidiadau yng nghyd-destun cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn creu her sylweddol i'n gwasanaethau llyfrgell ac i'r awdurdodau lleol sydd â dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd "cynhwysfawr ac effeithlon" o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Mae'r ddau adroddiad hyn yn gatalydd yn ein hysgogi i adolygu a gweithredu i ddatblygu gwasanaeth llyfrgell i ddiwallu anghenion pobl Cymru i'r dyfodol.

Rwy'n falch o weld bod llawer o'r argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor a'r Panel Arbenigol yn debyg i'w gilydd. Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i'r argymhellion unigol yn adroddiad y Pwyllgor.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar sefyllfa llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Yn ogystal ag adrodd ar sefyllfa llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, bydd yr adroddiad hwn yn cynnig cyfle i dynnu sylw at enghreifftiau o'r arferion gorau wrth gyflenwi gwasanaethau llyfrgell a'r gwahaniaeth y mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei wneud i fywyd beunyddiol pobl. Bydd hefyd yn nodi'r cynnydd diweddaraf yn erbyn strategaeth llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, sef *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* ar hyn o bryd.

Bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn ategu fframwaith datblygu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (y Safonau), Llywodraeth Cymru. Mae'r Safonau yn mesur perfformiad pob gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus dros gylch o dair blynedd. Cyhoeddir adroddiadau blynyddol ar gyfer gwasanaeth pob awdurdod lleol ar-lein ym mis Hydref. Ers iddynt gychwyn yn 2002, credir eu bod wedi gwella'r modd y darperir adnoddau a rhoi mynediad mwy cyfartal at wasanaethau.

Mae Cymru ar flaen y gad ymhlith gwledydd y DU ac Iwerddon o ran gweithredu strategaeth llyfrgelloedd sy'n cynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus, llyfrgelloedd addysgol ac ymchwil a llyfrgelloedd yn y gweithle. Mae hyn yn gwella mynediad gan y cyhoedd at adnoddau'r llyfrgelloedd hyn a gobeithio y bydd y Pwyllgor yn cefnogi

cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n cynnwys cyfraniad llyfrgelloedd ar draws y sectorau hyn yn unol â strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli.*

Bwriadaf gyhoeddi'r adroddiad ym mis Ionawr bob blwyddyn gan ddechrau yn 2016.

**Goblygiadau ariannol** - £2,000-£3,000 a ariennir o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'n ganolog ddata wedi'u dadgyfuno sy'n dangos y defnydd a wneir o lyfrgelloedd cyhoeddus yn ôl grwpiau demograffig.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Yn 2012 cynhaliodd Ymddiriedolaeth Carnegie y DU arolwg manwl o'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd cyhoeddus, gan gynnwys defnydd gan grwpiau demograffig yng Nghymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a Lloegr. Fe ddarparodd ddata gwerthfawr ond arolwg unwaith ac am byth ydoedd ac mae angen casglu tystiolaeth yn rheolaidd i oleuo'r ffordd wrth gynllunio darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus i'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd o'i harolygon a'r arolygon a gynhelir gan gyrff eraill sy'n cael nawdd cyhoeddus. Efallai y bydd modd ychwanegu cwestiwn at arolygon presennol i gipio'r data sydd eu hangen. Mae fy swyddogion yn CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yn adolygu'r opsiynau hyn. Mae rhai gwasanaethau llyfrgell yn casglu'r data hyn eisoes ond byddai'n fuddiol cael trosolwg dros y wlad gyfan.

Bydd yr wybodaeth hon yn ychwanegol at y dystiolaeth a ddarperir gan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'r data blynyddol a gesglir gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

**Goblygiadau ariannol** – Ariennir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gydweithio â phartneriaid i ddatblygu diffiniad cyfoes o wasanaethau llyfrgelloedd "comprehensive and efficient" i awdurdodau lleol eu darparu o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Dylai'r cyfryw ddiffiniad gynnwys darparu mynediad i'r rhyngrwyd, a ddylai barhau i fod am ddim yn ein barn ni.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Pan gasglodd y Panel Arbenigol dystiolaeth, ar ôl galw amdani, tynnwyd sylw hefyd at yr angen i ddiffinio beth yw gwasanaeth "cynhwysfawr ac effeithlon". Mae llyfrgellwyr, swyddogion awdurdodau lleol, grwpiau cefnogi llyfrgelloedd cyhoeddus, a'ch Pwyllgor chwithau, wedi codi'r mater hwn. Nid mater newydd ydyw ac mae cyhoeddiadau blaenorol fel *Adroddiad Gweithgor ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus,* Cyngor Llyfrgelloedd a Gwasanaethau

Gwybodaeth (Cymru), 1988 a Deddf Llywodraeth Leol 1999 gyda'i fframwaith Gwerth Gorau i gyd wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

Ers 2002, mae Gweinidogion Cymru wedi cyflawni eu dyletswydd i *"arolygu a hyrwyddo gwella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus"* a sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth llyfrgell *"cynhwysfawr ac effeithlon"* trwy weithredu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (y Safonau). Cyflwynwyd y fframwaith diweddaraf, *Llyfrgelloedd yn Gwneud Gwahaniaeth*, yn 2014 gan eu datblygu mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a llyfrgellwyr. Mae'r Safonau diweddaraf hefyd yn adlewyrchu ceisiadau am gynnwys mesuriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Bwriadaf barhau i ddefnyddio Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru fel y prif fecanwaith ar gyfer monitro darpariaeth gwasanaeth llyfrgell *"cynhwysfawr ac effeithlon"* gan awdurdodau lleol. Mae'r Fframwaith presennol ar gyfer Safonau yn amlinellu set o hawliau craidd y gall y cyhoedd eu disgwyl gan eu gwasanaethau llyfrgell lleol ac mae hawl craidd 10 yn nodi:

> *Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys diwifr.*

Rwy'n cefnogi'r hawl hon yn llwyr oherwydd cafwyd tystiolaeth gan wasanaethau llyfrgell ledled Cymru am rôl allweddol ein llyfrgelloedd cyhoeddus i sicrhau cynhwysiant digidol, yn enwedig gan fod nifer cynyddol o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi ar-lein.

Mater cysylltiedig a godwyd gan y Pwyllgor a'r Adolygiad Arbenigol oedd statws cyfreithiol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Nid canllawiau statudol mo'r Safonau presennol. Un o argymhellion y Panel Arbenigol yw:

> Argymhelliad XI y Panel Arbenigol: Dylai Llywodraeth Cymru weithredu'r broses ddeddfwriaethol angenrheidiol a fyddai'n rhoi statws canllawiau statudol i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, mewn perthynas â'r dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i adlewyrchu'r gofynion newidiol i'r llyfrgell gyhoeddus gyflenwi gwasanaethau ar y cyd ag eraill mewn amgylcheddau digidol.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion yn CyMAL roi blaenoriaeth i gwmpasu'r posibilrwydd o wneud fframwaith ar gyfer safonau yn y dyfodol yn ganllawiau statudol er mwyn cael mwy o eglurder mewn perthynas â'r hyn a olygir wrth wasanaeth llyfrgell *"cynhwysfawr ac effeithlon"*. Ar ôl i'r ymchwil hon gael ei chwblhau byddaf yn gofyn i'm swyddogion baratoi adroddiad manwl ar Ddeddfau mwy modern ar lyfrgelloedd cyhoeddus a chwmpasu'r posibilrwydd o gyflwyno Deddf o'r fath fel rhan o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol** - Ariennir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried datblygu cynllun achredu gwirfoddol ar gyfer llyfrgelloedd unigol yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn fel y mae'n sefyll. Fel y dywedwyd o dan Argymhelliad 3 uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru er mwyn monitro'r modd y cyflenwir gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Safonau wedi llwyddo i sicrhau mwy o gysondeb yn y gwasanaethau llyfrgell a ddarperir mewn gwahanol rannau o Gymru ac wedi effeithio'n uniongyrchol ar bwyntiau gwasanaeth unigol, e.e. cyflwyno diwifr, gwell ystod o adnoddau.

Un o'r prif resymau y gwnaed y cais hwn oedd bod angen ceisio datblygu fframwaith Achredu, tebyg i gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU, er mwyn helpu i fesur a datblygu lefel y gwasanaeth a ddarperir gan lyfrgelloedd sy'n cael eu rheoli gan gymunedau. Byddai'n gostus cyflwyno trefn gadarn ar gyfer Achredu a byddai'n golygu ychwanegu haen arall o fonitro/casglu a dadansoddi data.

Cafodd y cynllun Achredu Amgueddfeydd presennol (y cymerir rhan ynddo yn wirfoddol) ei ddatblygu ar lefel y DU ac fe gymerodd hynny ddwy flynedd. Mae wedi cymryd yn agos i ddwy flynedd i ymgynghori a datblygu fframwaith presennol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ar gost o £25,000 – ar ben y mewnbwn sylweddol a gafwyd gan staff Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol.

Mae'n bosibl rhoi bron y cyfan o'r hawliau craidd a amlinellir yn fframwaith presennol y Safonau ar waith ar lefel gwasanaeth cyfan a hefyd mewn pwyntiau gwasanaeth unigol. Bydd fy swyddogion yn CyMAL yn cydweithio â rhanddeiliaid er mwyn pennu pa hawliau craidd o blith y rhai a amlinellir yn y Safonau y dylai'r cyhoedd ddisgwyl eu cael gan bob llyfrgell gyhoeddus. Trwy hyn gellir gweld a yw'n bosibl i lyfrgell gael ei chynnwys fel rhan o'r ddarpariaeth statudol. Bydd y gwaith hwn yn digwydd fel rhan o'r dasg o roi ar waith Argymhellion VIII a IX yn Adolygiad Arbenigol CyMAL.

> Argymhelliad VIII y Panel Arbenigol: *Ni ddylid ystyried llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau (sef yr hyn a amlinellir ym mharagraff 80) fel rhan o'r ddarpariaeth llyfrgell statudol ar hyn o bryd, yn amodol ar ganfyddiadau'r ymchwil a gynigir ym mharagraff 103. Ni ddylid cynnwys data am lyfrgelloedd nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth statudol yn yr adroddiadau dan y Fframwaith ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.*
>
> Argymhelliad IX y Panel Arbenigol: *Dylai CyMAL gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau a dogfennaeth briodol ar gyfer cytundebau partneriaeth sy'n nodi'r gofynion sylfaenol a fyddai'n galluogi llyfrgell a gefnogir gan y gymuned i gael ei hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol perthnasol fel rhan o'r broses hon. Dylai CyMAL ddatblygu erbyn mis Ionawr 2015 y meini prawf i lyfrgell a gefnogir gan y gymuned gael ei chynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth statudol a rhoi'r rhain ar waith o fis Ebrill 2015 ymlaen.*

**Goblygiadau ariannol –** Bydd unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer rhoi ar waith argymhellion VIII a IX y Panel Arbenigol yn cael eu hariannu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 5.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i weithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd i gydweithio a chydleoli wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn yn llawn. Mae cysylltiad agos rhyngddo a dau o brif argymhellion y Panel Arbenigol, a'r rheini yn ddau o'r rhai lle mae mwyaf o frys:

> Argymhelliad VII y Panel Arbenigol: *Dylai awdurdodau lleol gydnabod yr angen am fwy o bwyslais, a hynny ar frys, ar gynlluniau cydweithredol yn eu strategaethau ar gyfer darparu llyfrgelloedd cyhoeddus i'r dyfodol, yn enwedig rhwng adrannau awdurdodau lleol, ar draws ffiniau'r awdurdodau lleol a chyda llyfrgelloedd eraill yn y sector cyhoeddus, a dylent ymateb i'r angen hwnnw. Dylai'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ystyried, wrth benderfynu beth yw gwasanaeth "cynhwysfawr ac effeithlon", berfformiad ac ymroddiad yr awdurdod lleol o ran cyflenwi gwasanaethau mewn modd cydweithredol.*
>
> Argymhelliad X y Panel Arbenigol: *Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â CLILC a'r awdurdodau lleol i symud ymlaen gyda'r gweithredoedd strategol canlynol:*
>
> *a) sicrhau mwy o gydweithio ar raddfa ehangach rhwng awdurdodau a hynny ar unwaith*
> *b) datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn unol ag unrhyw fodel i lywodraeth leol a geir yng Nghymru yn y dyfodol*
> *c) yr angen i ddatblygu trefn o gonsortia rhanbarthol neu genedlaethol i gyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y tymor canol (3-5 mlynedd), a hyn yn cael ei hwyluso gan gorff a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn derbyn cyllid addas*
> *d) creu gwasanaeth llyfrgelloedd i Gymru a gyd-drefnir yn genedlaethol, yn y pen draw.*

Mae'r angen i wneud cynnydd gyda'r gwaith hwn hefyd yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu:

> Y Rhaglen Lywodraethu - *Atgyfnerthu trefniadau cydweithio rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell, amgueddfeydd ac archifau a sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyrraedd y safonau cenedlaethol o ran darparu llyfrgelloedd cyhoeddus.*

Yng Nghymru rydym wedi bod ar flaen y gad ymhlith gwledydd y DU o ran cydweithio yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn datblygu modelau mwy cynaliadwy ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Dyma un o'r prif feysydd yn strategaeth

*Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn wyneb y sefyllfa ariannol bresennol mae'n rhaid wrth newid sylweddol fel y gellir sicrhau bod yr arferion gorau yn cyrraedd pobman ac y datblygir ffyrdd newydd, mwy arloesol, o gyflenwi gwasanaethau. Yn yr ymchwiliad fe glywodd y Pwyllgor am nifer o enghreifftiau o roi'r arferion gorau ar waith yng Nghymru lle gwelir potensial i'w rhannu â phawb.

Cytunaf â barn y Panel Arbenigol nad yw'r status quo yn opsiwn a bod angen inni adeiladu ar sail y dystiolaeth bresennol er mwyn datblygu modelau newydd, a'r rheini wedi'u costio, ar gyfer cyflenwi gwasanaethau a hynny er mwyn hwyluso trafodaeth. Nodaf sylw'r Panel Arbenigol nad yw aros nes yr ad-drefnir llywodraeth leol yn opsiwn a bod angen dechrau cynllunio yn awr.

Un elfen allweddol pan roddir modelau newydd ar waith ar gyfer cyflenwi gwasanaethau fydd datblygu system reoli llyfrgelloedd yng Nghymru, cynnig llyfrgell ddigidol a lleoli mwy o wasanaethau lleol gyda'i gilydd.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion yn CyMAL roi hyd yn oed mwy o bwyslais ar gefnogi ymdrechion i gydweithio fel rhan o raglen grantiau refeniw Arloesi a Datblygu Llywodraeth Cymru a rhaglen grantiau cyfalaf Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol.

**Goblygiadau ariannol** – Bydd rhoi cymorth ariannol i ymdrechion i gydweithio yn un o'r blaenoriaethau yn rhaglenni grantiau cyfalaf a refeniw Llywodraeth Cymru a bydd y rhaglenni hyn yn parhau ac yn cael eu gweinyddu gan CyMAL.

**Argymhelliad 6.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod y cymorth parhaus a'r canllawiau angenrheidiol ar gael er mwyn gwella cynaliadwyedd hirdymor llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Fe nododd y Panel Arbenigol hefyd yn Argymhelliad IX fod angen datblygu canllawiau ar gyfer llyfrgelloedd a reolir ac a gefnogir gan gymunedau. Os rhoddir ar waith Argymhelliad IV y Panel, bydd hynny hefyd yn cynnig tystiolaeth fuddiol i oleuo'r gwaith hwn.

> Argymhelliad y Panel Arbenigol: *Dylai CyMAL gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau a dogfennaeth briodol ar gyfer cytundebau partneriaeth sy'n nodi'r gofynion sylfaenol a fyddai'n galluogi llyfrgell a gefnogir gan y gymuned i gael ei hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod. Dylai CyMAL ddatblygu erbyn mis Ionawr 2015 y meini prawf i lyfrgell a gefnogir gan y gymuned gael ei chynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth statudol a rhoi'r rhain ar waith o fis Ebrill 2015 ymlaen.*

Mae'r gwaith wedi dechrau ar ddatblygu dogfennaeth mewn perthynas â llyfrgelloedd a gefnogir gan y gymuned ac mae prosiect peilot ar waith yn awr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a noddir drwy grant. Un o ddeilliannau'r prosiect yw rhannu'r ddogfennaeth sy'n cael ei chreu â gwasanaethau llyfrgell eraill sydd â diddordeb. Dylai'r ddogfennaeth hon fod ar gael cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd yr ymchwil a wneir fel rhan o Argymhelliad IV y Panel Arbenigol hefyd yn cyfrannu i'r gwaith hwn:

> Argymhelliad IV y Panel Arbenigol: *Dylai CyMAL weithredu yn syth i gasglu tystiolaeth ac asesu pa effaith a gaiff y newidiadau arfaethedig yn y modd y darperir gwasanaethau llyfrgelloedd ar gymunedau, yng nghyd-destun gofynion statudol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent er mwyn goleuo penderfyniadau gan awdurdodau lleol eraill i'r dyfodol. Dylai CyMAL gyhoeddi adroddiad ar ôl cyfnod cychwynnol o 3 mis o ymchwil ac adroddiad llawn ar ôl 12 mis.*

Nodaf fod paragraff 174 adroddiad y Panel Arbenigol yn dweud:

> *Mae lefel y bartneriaeth/cefnogaeth barhaus a ddarperir gan y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus lleol yn allweddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau. Mae'r Panel yn cefnogi'r model hwn o bartneriaethau llyfrgell yn llwyr ac yn nodi bod angen gwaith pellach i adnabod y model mwyaf effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.*

Mae tystiolaeth yn dechrau dod i'r amlwg yn sgil rhai o'r prosiectau cyntaf lle rheolwyd llyfrgelloedd gan y gymuned yng Nghymru, i ddangos bod lefel y gefnogaeth a geir gan wasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol yn hollbwysig os yw llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau am fod yn gynaliadwy.

**Goblygiadau ariannol –** Bydd CyMAL yn parhau i roi arweiniad a chymorth i ddatblygu modelau ar gyfer gwasanaethau llyfrgell a reolir neu a gefnogir gan y gymuned gan ddefnyddio'r staff a'r adnoddau presennol.

**Argymhelliad 7.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod cymorth a chanllawiau digonol yn parhau i fod ar gael er mwyn i awdurdodau lleol nodi a mynd ar drywydd yr holl gyfleoedd ariannu sydd ar gael.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae CyMAL wedi darparu dau seminar yn ddiweddar, un yn y Gogledd a'r llall yn y De, er mwyn helpu gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd i weld pa ffynonellau arian sydd ar gael. Bu cynghorwyr CyMAL yn bresennol yn y seminarau hyn a byddant yn parhau i helpu'r gwasanaethau i gael hyd i bosibiliadau er mwyn cael arian. Mae hon yn elfen graidd o'u gwaith.

Yr un mor bwysig â chanfod ffynonellau arian ydyw'r angen i ddatblygu sgiliau staff llyfrgelloedd er mwyn iddynt baratoi ceisiadau. Mae CyMAL hefyd wedi darparu cyrsiau er mwyn i sector yr amgueddfeydd, yr archifau a'r llyfrgelloedd fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae enghreifftiau o waith llwyddiannus iawn yn digwydd drwy bartneriaeth. Er enghraifft, dywedodd Cymorth Canser Macmillan yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor eu bod wedi buddsoddi £800,000 ers 2010 er mwyn datblygu gwasanaethau gwybodaeth a chymorth mewn llyfrgelloedd.

**Goblygiadau ariannol –** Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei gefnogi drwy gyfrwng y staff a'r adnoddau presennol.

**Argymhelliad 8.** Argymhellwn, er y dylai gwasanaethau craidd llyfrgelloedd barhau i fod am ddim, y dylai'r Gweinidog ystyried ar y cyd ag awdurdodau lleol yr holl opsiynau eraill sydd ar gael er mwyn i lyfrgelloedd godi refeniw.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yn llawn y dylai gwasanaethau craidd y llyfrgelloedd barhau i fod yn rhad ac am ddim ac fe nododd y Panel Arbenigol:

> *Yng Nghymru mae traddodiad cryf o ddarparu'r rhan helaeth o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn ddi-dâl lle maent yn cael eu defnyddio, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r agendâu tlodi a chynhwysiant cymdeithasol.*

Nododd adroddiad y Panel Arbenigol fod:

> *y cyfleoedd i gynhyrchu incwm sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar y sefyllfa bresennol o ran cyllid. Yn wir, mae'r dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn gostus cyflwyno a gweinyddu mentrau bach i godi arian fel codi tâl am ddefnyddio TGCh. Hefyd, mae gweithredoedd o'r fath yn wrthgynhyrchiol (yn enwedig mewn perthynas ag aelodau'r cyhoedd sydd dan anfantais) o safbwynt y flaenoriaeth gorfforaethol a chenedlaethol, sy'n dod yn fwyfwy pwysig, i sicrhau cynhwysiant digidol pan fo angen mynediad at y rhyngrwyd a sgiliau digidol er mwyn cael budd-daliadau lles ac i helpu pobl i gael gwaith.*

Rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedir yma, ond mae angen hefyd inni edrych ar ffynonellau eraill er mwyn cael incwm a dysgu gan wledydd eraill a sectorau eraill sydd wedi llwyddo i ddenu incwm ychwanegol o ffynonellau gwahanol, er enghraifft rhoddion a chymynroddion. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion yn CyMAL edrych ar yr opsiynau hyn ac opsiynau eraill pan fyddant yn rhoi cyngor ar sut i sicrhau incwm.

**Goblygiadau ariannol –** Bydd unrhyw gostau'n cael eu hariannu o gyllidebau neu adnoddau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 9.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i hyrwyddo'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd cyhoeddus yn well.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae CyMAL wedi comisiynu ymchwil i hyn ac mae datblygu cynulleidfa a marchnata yn rhan allweddol o holl strategaethau Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Fel rhan o strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* ar hyn o bryd, dyrannwyd £150,000 allan o gyfanswm y gyllideb refeniw sef tua £805,000 ar gyfer datblygu cynulleidfa a marchnata yn 2014-15. Mae'r gwaith ar ddatblygu cynulleidfa'n cael ei arwain gan Wasanaeth Llyfrgell Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar ran llyfrgelloedd Cymru. Mae'r math hwn o gydweithio yn rhoi gwerth am arian ac yn sicrhau y gwneir yn fawr o'r buddsoddiad. Cynhelir gweithgareddau hyrwyddo ar gyfer Cymru gyfan; ymhlith pethau eraill cafwyd ymgyrchoedd drwy bapurau newydd, ymgyrchoedd ar y radio a gŵyl lyfrgelloedd. Mae'r model cydweithredol hwn, sydd yn cynnwys pob rhan o Gymru wrth hyrwyddo llyfrgelloedd hefyd yn cael ei ddilyn ar gyfer amgueddfeydd ac archifau. Mae'n destun edmygedd mewn llawer o wledydd eraill.

Mae'r tîm yn Wrecsam wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol, cyfrwng lle mae'r costau'n isel, er mwyn hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell ac maent wedi mynd ati i fanteisio ar sawl gwasanaeth gan gynnwys Trydar, Gweplyfr ac YouTube. Mae ystod y gwasanaethau a ddefnyddir yn cynyddu o hyd. Mae'r tîm hefyd wedi trefnu hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer staff llyfrgelloedd, er mwyn i'r sgiliau hyn ymwreiddio ymhlith staff y gwasanaeth yn lleol, drwy Gymru benbaladr.

Sylweddolaf fod angen gwneud mwy i sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl o bobl yn elwa o'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n anodd cynyddu'r buddsoddiad yn y maes hwn. Gobeithio y bydd holl aelodau'r Pwyllgor yn ymuno â mi i fanteisio ar y cyfleoedd i hyrwyddo ein gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus a'r holl wahanol adnoddau y maent yn eu cynnig.

Er mwyn hyrwyddo ein llyfrgelloedd cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu dros £13m ers 2007-08 er mwyn moderneiddio 98 o lyfrgelloedd cyhoeddus. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr a nifer y llyfrau a fenthycir yn y llyfrgelloedd hyn a foderneiddiwyd, yn enwedig nifer y plant sy'n dod yno.

**Goblygiadau ariannol** – Fel rhan o un o elfennau allweddol strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, fe barheir i fuddsoddi refeniw mewn gweithgareddau i ddatblygu cynulleidfaoedd, allan o gyllideb rhaglenni CyMAL. Yn 2015-16 fe ddyrannwyd £1m yn ychwanegol yn y Gyllideb ddrafft er mwyn moderneiddio ein llyfrgelloedd cyhoeddus fel rhan o raglen grantiau cyfalaf y Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol.

**Argymhelliad 10.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i fynd ar drywydd yr achos dros gael arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU er mwyn cydnabod y cyfrifoldebau cynyddol sydd gan staff llyfrgelloedd yng Nghymru i gefnogi'r broses o gyflwyno diwygiadau lles digidol yn bennaf.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'n bwysig cydnabod gwaith llyfrgelloedd cyhoeddus wrth iddynt helpu pobl i gael mynediad at y nifer cynyddol o wasanaethau

cyhoeddus o eiddo Llywodraeth y DU a gyflenwir ar-lein yn bennaf, a defnyddio'r gwasanaethau hynny. Byddaf yn trafod hyn â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, y mae ei bortffolio yn cynnwys diwygio lles.

**Goblygiadau ariannol** – Bydd y gwaith parhaus hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio cyllidebau presennol y rhaglen.

Unwaith eto hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor a'i aelodau am eu tystiolaeth a'u diddordeb gwerthfawr wrth inni geisio cynnal a datblygu ein gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae eich adroddiad ac adroddiad y Panel Arbenigol wedi amlygu'r angen i adolygu a datblygu model cyflenwi mwy cydweithredol a chynaliadwy a fydd yn diwallu anghenion newidiol pobl Cymru. Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn yr ymchwiliad a'r adolygiad yn dangos yn eglur fod angen inni wneud rhywbeth ar frys fel na fydd ein rhwydwaith llyfrgelloedd - ffisegol a rhith - yn dioddef niwed anadferadwy. Ar 22 Hydref byddaf yn siarad mewn Cynhadledd ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i lansio'r adroddiad ac argymhellion y Panel Arbenigol er mwyn derbyn sylwadau.

Fel rhan o'm hymateb i'ch ymchwiliad ac ymchwiliad yr Adolygiad Arbenigol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion yn CyMAL ddechrau gweithio ar rai o'r argymhellion ar unwaith. At hynny, bydd yr holl dystiolaeth werthfawr a gasglwyd yn gymorth i oleuo *Cynllun Cyflenwi Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* yn awr yn ogystal â strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer llyfrgelloedd yn y dyfodol.